**Swyddog Adnoddau Dynol (NU090)**
**Cysylltiadau Gweithwyr**
**GRADD 7**
**37 awr yr wythnos**
**CYFLOG: o £22,021 – £23,836**
**(bydd pob swydd yn amodol ar werthusiad swydd)**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn awyddus i benodi unigolyn sy wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Adnoddau Dynol proffesiynol o ansawdd uchel fel rhan o'n tîm Cysylltiadau Gweithwyr prysur. Lleolir y swydd yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr Adnoddau Dynol proffesiynol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar delerau ac amodau cyflogaeth. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad perthnasol o fewn amgylchedd AD neu yn meddu ar dytysgrif Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu mewn ymarferiadau Adnoddau Dynol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. I gael rhagor o wybodaeth, fe'ch gwahoddir i gysylltu â Gillian Goss, Rheolwr Adnoddau Dynol, Cysylltiadau Gweithwyr (g-goss@southwales-fire.gov.uk).

Sylwch, ar yr achlysur hwn, ni fydd secondiadau yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd hon.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

---

**Sut i Ymgeisio…**

Bydd angen anfon ffurflenni cais wedi'u cwblhau i Gillian Goss erbyn y dyddiad cau, sef 28/06/19 at ganol dydd. Nodwch fod hon yn broses gystadleuol iawn a bydd angen i'r ffurflen gais ddangos yn glir sut mae'r ymgeisydd yn bodloni Meini Prawf y Rhestr fer a amlygir ar y Fanyleb Person. Dim ond yr ymgeiswyr sy'n perfformio orau fydd yn symud ymlaen i'r broses ddethol.

Os oes angen y dogfennau yn Gymraeg arnoch, cysylltwch â'r tîm recriwtio.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.